

## Nodiadau ar Gofrestru Eiddo Bwyd

### Beth yw cofrestru?

1. O dan Erthygl 6(2) o Reoliad (GE) 852/2004 rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu sefydliadau (h.y. pob uned unigol o'u busnes bwyd) gyda'r awdurdod bwyd priodol.

Mae cofrestru yn caniatáu i awdurdodau lleol i gadw rhestr gyfredol o eiddo bwyd yn eu hardaloedd fel y gallant ymweld â hwy pan fo angen. Bydd amllder yr ymweliadau yn dibynnu ar y math o fusnes ydyw.

### Pwy sydd angen cofrestru?

2. Os ydych yn rhedeg busnes bwyd, dylech roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am unrhyw eiddo yr ydych yn ei ddefnyddio i storio, gwerthu, dosbarthu neu baratoi bwyd. Mae eiddo bwyd yn cynnwys bwytai, gwestai, caffis, siopau, archfarchnadoedd, ffreuturau staff, ceginau swyddfeydd, warysau, gwestai bach, cerbydau anfon, cychod pleser, stondinau marchand ac eraill, faniau cŵn poeth a hufen ia ac ati. I gael gwybodaeth am eithriadau gweler nodyn 5.

3. Os ydych yn defnyddio cerbydau ar gyfer eich busnes bwyd mewn cysylltiad gyda eiddo parhaol fel siop neu warws, y cwbl sydd angen i chi roi gwybod i'r awdurdod lleol yw sawl cerbyd sydd gennych. Ni does angen i chi gofrestru pob cerbyd ar wahân. Os oes gennych un cerbyd neu fwy ond ddim eiddo parhaol, rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod lle maent yn cael eu cadw fel arfer.

### Cyfnod Amser i Gofrestru

4. Rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu dechrau busnes bwyd gofrestru gyda'r awdurdod lleol o leiaf 28 diwrnod cyn i'r gwaith ei hun ddechrau.

### Eithriadau

5. Nid oes unrhyw eithriadau i Reoliad 852/2004. Er hynny, mae busnesau bwyd sy'n cyflenwi cynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid (sef sefydliadau cynnyrch penodol, sy'n cynhyrchu pethau fel paratoadau cig, briwgig, cynnyrch cig, cynnyrch llaeth, cynnyrch wyau a gelatin) ac eithrio drwy adwerthu, yn amodol i Gymeradwyaeth o dan Reoliad (GE) 853/2004 yn hytrach na chofrestru gyda'r awdurdod bwyd.

Os ydych yn ansicr os oes agwedd o'ch gweithrediadau bwyd yn golygu fod angen i'ch sefydliad gael ei gymeradwyo, cysylltwch ag Adran Iechyd yr Amgylchedd.

## Notes on Registration of Food Premises

### What is registration?

1. Under Article 6(2) of Regulation (EC) 852/2004 food business operators must register their establishments (i.e. each separate unit of their food businesses) with the appropriate food authority.

Registration allows local authorities to keep an up-to-date list of food premises in their area so they can visit them when they need to. The frequency of the visits will depend on the type of business.

### Who needs to register?

2. If you run a food business you must tell (or arrange for someone else to tell) the Local Authority about any premises you use for storing, selling, distributing or preparing food. Food premises includes restaurants, hotels, cafes, shops, supermarkets staff canteens, kitchens in offices, warehouses, guest houses, delivery vehicles, pleasure craft, market and other stalls, hot dog and ice cream vans, etc. For information on exemptions see note 5.

3. If you use vehicles for your food business in connection with permanent premises such as a shop, or warehouse you only need to tell the local authority how many vehicles you have. You do not need to register each vehicle separately. If you have one or more vehicles but no permanent premises, you must tell the authority where they are normally kept.

### Time Period for Registration

4. Anyone starting a new food business must register with the local authority at least 28 days before their food operation commences.

### Exemptions

5. There are no exemptions to Regulation 852/2004. However, food businesses supplying products of animal origin (these are product-specific establishments, which produce products such as meat preparations, minced meat, meat products, dairy products, egg products and gelatine) other than by retail, are subject to Approval under Regulation (EC) 853/2004 rather than registration with the food authority. If you are unsure whether any aspect of your food operations would require your establishment to be approved, please contact the Environmental Health Department.

## **Sut i Gofrestru**

6. Gellir cofrestru drwy gwblhau'r ffurflen hon. Ni ellir gwrthod eich cofrestru ac nid oes unrhyw dâl. Rhaid anfon y ffurflen i'ch awdurdod lleol. Gellir gweld y cyfeiriad yn y Llyfr Ffôn. Os ydych yn anfon y ffurflen i'r cyfeiriad anghywir, ni fyddwch wedi eich cofrestru hyd nes ei fod wedi mynd i'r cyfeiriad cywir. Os ydych yn defnyddio eiddo sydd mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol mae'n rhaid i chi gofrestru gyda phob awdurdod ar wahân.

7. Rhaid i chi roi tic yn y blychau sy'n berthnasol i'ch busnes, gan ateb yr holl gwestiynau a chyflwyno'r holl wybodaeth a ofynnir amdani. Dylai busnesau tymhorol sy'n gweithredu am gyfnod penodol bob blwyddyn roi'r dyddiadau pan fyddant yn gweithredu i ateb cwestiwn 12. Os oes gennych unrhyw gwestiynau bydd eich awdurdod lleol yn barod i'ch helpu. Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth yr ydych yn gwybod sy'n annwir.

## **Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen?**

8. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi y manylion ar y Gofrestr Lleol o fusnesau bwyd. Bydd y gofrestr sy'n cynnwys enw gweithredwr y busnes bwyd, enw'r busnes bwyd, cyfeiriad y sefydliad a manylion a natur y busnes, yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd. Ni fydd manylion yr wybodaeth arall a ddarperir ar gael i'r cyhoedd yn amodol i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.

## **Newidiadau**

9. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Lleol am unrhyw newidiadau i'r manylion a roddwyd yn flaenorol e.e. newid y gweithredwr busnes bwyd, newid mewn gweithgareddau a wneir mewn perthynas â bwyd, cau sefydliad, newid cyfeiriad lle cedwir eiddo symudol. Dylai hysbyswyr o'r fath gael eu gwneud yn ysgrifenedig os yn bosibl cyn i'r newidiadau ddigwydd, a beth bynnag ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd. Rhaid i weithredwr busnes bwyd newydd gwblhau ffurflen gais newydd. Os yw'r awdurdod lleol yn dymuno newid y cofnod yn y Gofrestr oherwydd gwybodaeth a dderbynnir gan rywun arall, byddwch yn cael 28 diwrnod a chyfle i roi sylwadau ar y newid arfaethedig.

**Darparwyd y nodiadau hyn er gwybodaeth yn unig, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiad llawn o'r gyfraith.**

## **How to Register**

6. By completing this form. Registration cannot be refused and there is no charge. The registration form must be sent to your local authority. The address can be found in the telephone directory. If the form is sent to the wrong address your application will not take effect until it is received at the proper place. If you use premises in more than one local authority area, you must register with each authority separately.

7. You must tick all the boxes which apply to your business, answer all the questions and give all the information requested. Seasonal businesses operating for a certain period each year should give the dates between which they will be open in answer to question 12. If you have any questions your local authority will help you. It is an offence to give information which you know is false.

## **What happens to the information given on the form?**

8. The Local Authority will enter the details on a local Register of food businesses. A register containing the name of the food business operator, name of the food business, address of the food business establishment and particulars and nature of the food business, will be open to inspection by the general public. Details of the other information provided will not be publicly available subject to provisions of the Freedom of Information Act 2000 and Data Protection Act 1998.

## **Changes**

9. Any changes to the details previously supplied must be notified to the Local Authority, e.g. a change of food business operator, a change of activities carried out in relation to food, closure of an establishment, change of the address at which moveable premises are kept. Such notifications should be made, preferably in writing and before the changes occur, and in any event no later than 28 days after the change has occurred. A new food business operator must complete a new application form. If the local authority wishes to change the entry in the Register because of information which it receives from someone else you will be given 28 days notice and opportunity to comment on the proposed change.

**These notes are provided for information only and should not be regarded as a complete statement of the law.**